Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd

**Amseru:** Rheolaidd

**Teitl:** Dewislen/Dewisiadau Rhwymedi Cymunedol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Ymgynghori Cyhoeddus

**Crynodeb Gweithredol:**

Deilliodd Rhwymedi Cymunedol o ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2012-2013. Ar ôl derbyn cefnogaeth gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, daeth y Rhwymedi Cymunedol yn elfen allweddol o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) Dyfed-Powys ymgynghoriad cyhoeddus yn 2013, a chytunwyd ar ddewislen rhwymedi cymunedol.

Ers 2013, mae SCHTh, mewn ymgynghoriad â Heddlu Dyfed-Powys, wedi diweddaru'r ddewislen rhwymedi cymunedol mewn perthynas â diwygiadau i brosesau mewnol sy'n gydnaws â phob dewis; fodd bynnag, mae cynnwys y ddewislen rhwymedi cymunedol yr un fath ers 2013 h.y. 10 mlynedd.

**Argymhelliad:**

1. Cynnal ymgynghoriad angenrheidiol ar ddewislen rhwymedi cymunedol newydd.
2. Creu tudalen benodol ar wefan SCHTh Dyfed-Powys.
3. Cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y dudalen benodol ar y wefan.
4. Creu dogfen swyddogol sy'n amlinellu rhestr o ddewisiadau rhwymedi posibl, fel y cytunwyd o ganlyniad i ymgynghori.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 23/03/23**